OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau ger Cyffordd 9 (Treborth) a Chyffordd 11 (Llandygai), Gwynedd) (Gwahardd Aros) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Hydref 2014* |
| *Yn dod i rym* | *9 Hydref 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984") ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn i rym ar 9 Hydref 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau ger Cyffordd 9 (Treborth) a Chyffordd 11 (Llandygai), Gwynedd) (Gwahardd Aros) 2014.

**2**. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cilfannau" *("lay-bys")* yw unrhyw rannau o'r gefnffordd a fwriedir fel man aros i gerbydau, sydd ar ymylon y gefnffordd â ffin gyfan neu rannol iddynt o farciau ffordd o'r math a welir yn niagram 1010 o Atodlen 6 i Reoliadau Traffig Ffyrdd a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2002**(2)**;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen ar unrhyw adeg.

**Esemptiadau**

**4.** Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros yn y darnau cyfan o gilfannau y cyfeirir atynt ynddi am gymaint o amser y gellid bod ei angen i:

(a) caniatáu i berson fynd i mewn i gerbyd neu ddod allan o gerbyd;

(b) caniatáu llwytho nwyddau ar gerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) caniatáu i gerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at ddiben o'r fath ar unrhyw ddarn arall o ffordd, gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau a ganlyn, sef:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig oddi yno;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau o gilfannau; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darnau o gilfannau, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003**(3)**;

(d) caniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(e) caniatáu i gerbyd gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau hynny o'r cilfannau a ddiffinnir neu'n gyfagos iddynt;

(f) caniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) caniatáu i gerbyd aros pan fo person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

i. pan fydd yn ofynnol i'r person sy'n ei reoli aros yn ôl y gyfraith;

ii. yn gorfod aros er mwyn osgoi damwain; neu

iii. pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Hydref 2014

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 2002/3113
**(3)** 2003 p.21

## YR ATODLEN

Y darn cyfan o'r gilfan wrth gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i'r gorllewin o Gyffordd 9 (Treborth) sy'n ymestyn o bwynt 160 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt pont y ffordd ddi-ddosbarth a elwir Ffordd Bronwydd hyd at bwynt 55 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y bont honno (wedi ei nodi ag A ar y plan a adneuwyd).

Y darn cyfan o'r gilfan wrth gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i'r gorllewin o Gyffordd 9 (Treborth) sy'n ymestyn o bwynt 40 metr i'r gorllewin o ganolbwynt pont y ffordd ddiddosbarth a elwir Ffordd Bronwydd hyd at bwynt 145 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y bont honno (wedi ei nodi â B ar y plan a adneuwyd).

Y darn cyfan o'r gilfan wrth gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd rhwng Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa

Llandygai) sy'n ymestyn o bwynt 430 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt pont y ffordd ddiddosbarth a elwir Ffordd Hendrewen hyd at bwynt 550 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont honno (wedi ei nodi ag C ar y plan a adneuwyd).

Y darn cyfan o'r gilfan wrth gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd rhwng Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa Llandygai) sy'n ymestyn o bwynt 475 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt pont y ffordd ddiddosbarth a elwir Ffordd Hendrewen hyd at bwynt 590 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont honno (wedi ei nodi â D ar y plan a adneuwyd).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CILFANNAU GER CYFFORDD 9 (TREBORTH) A CHYFFORDD 11 (LLANDYGAI), GWYNEDD) (GWAHARDD AROS) 2014**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 1, 2 a 4 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd aros mewn cilfannau penodol ar gefnffordd yr A55 ger Cyffordd 9 (Treborth) a Chyffordd 11 (Llandygai), Gwynedd, fel a nodir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn. Daw'r Gorchymyn i rym ar 9 Hydref 2014.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 7 Hydref 2014, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan cysylltiedig yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH a Swyddfeydd Cyngor Ynys Môn, Llangefni LL77 7TW neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1148747.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth o'i fewn, ar y seiliau:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofyniadau perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 7 Hydref 2014, wneud cais i'r Uchel Lys am atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol/ 2014).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn cyfan o'r gilfan wrth gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd, i'r gorllewin o Gyffordd 9 (Treborth), sy'n ymestyn o bwynt 160 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt pont y ffordd ddiddosbarth a elwir Ffordd Bronwydd hyd at bwynt 55 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y bont honno (wedi ei nodi ag A ar y plan a adneuwyd).

Y darn cyfan o'r gilfan wrth gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd, i'r gorllewin o Gyffordd 9 (Treborth), sy'n ymestyn o bwynt 40 metr i'r gorllewin o ganolbwynt pont y ffordd ddiddosbarth a elwir Ffordd Bronwydd hyd at bwynt 145 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y bont honno (wedi ei nodi â B ar y plan a adneuwyd).

Y darn cyfan o'r gilfan wrth gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd rhwng Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa Llandygai) sy'n ymestyn o bwynt 430 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt pont y ffordd ddiddosbarth a elwir Ffordd Hendrewen hyd at bwynt 550 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont honno (wedi ei nodi ag C ar y plan a adneuwyd).

Y darn cyfan o'r gilfan wrth gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd rhwng Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa Llandygai) sy'n ymestyn o bwynt 475 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt pont y ffordd ddiddosbarth a elwir Ffordd Hendrewen hyd at bwynt 590 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y bont honno (wedi ei nodi â D ar y plan a adneuwyd).